Beibl i Blant
yn cyflwyno

Yr Eglwys yn wynebu anawsterau

Awdur: Edward Hughes

Lluniau gan: Janie Forest

Cyfieithydd: Catrin Roberts

addaswyd gan: Ruth Klassen

Stori 56 o 60

www.M1914.org

Bible for Children, *PO Box 3, Winnipeg, MB R3C 2G1 Canada*

Trwydded: mae gennych hawl i gopïo neu argraffu'r stori hon, ar yr amod nad ydych yn ei gwerthu.

Welsh

Pum deg diwrnod ar ôl i Iesu, mab Duw, ddod nôl yn fyw, daeth yr Ysbryd Glân at ei ddilynwyr. Doedd y disgyblion ddim yn deall sut oedd Duw y Tad, Duw y Mab (Iesu) a Duw yr Ysbryd Glân yn gallu bod yn un, ond roeddwn nhw'n hapus fod Duw gyda nhw. Gwnaeth Duw bethau gwych i helpu'r apostolion ddweud wrth eraill am Iesu.

1

Roedd y bobl oedd yn credu yn Iesu yn rhannu popeth er mwyn gwneud yn siwr fod pobl dlawd yn cael gofal. Ond roedd un cwpl o'r enw Ananias a Saffira yn anonest.



2

Ar ôl gwerthu ychydig o dir fe wnaethon nhw gymryd arnyn nhw bod nhw wedi rhoi'r arian i gyd i'r apostolion. Ond roedden nhw wedi cadw peth o'r arian iddyn nhw eu hunain.



3

"Pam wyt ti wedi gadael i Satan gael gafael ynot ti a dweud celwydd wrth yr Ysbryd Glân…?" gofynnodd Pedr i Ananias. "Dim wrthyn ni rwyt ti wedi dweud celwydd, ond wrth Dduw."



4

Syrthiodd Ananias yn farw i'r llawr. Daeth dynion ifanc a lapio'r corff cyn ei gario allan i'w gladdu.



5

Ychydig wedyn, daeth Saffira yno. Doedd hi ddim yn gwybod fod ei gŵr wedi marw. Fe wnaeth hi hefyd ddweud celwydd am yr arian, a digwyddodd yr un peth iddi hi. Roedd gan bawb ofn wrth glywed hyn.



6

Fe wnaeth yr Ysbryd Glân lawer o wyrthiau rhyfeddol drwy'r apostolion, er enghraifft, roedd pobl sâl yn cael eu gwella wrth i gysgod Pedr ddisgyn arnyn nhw.



7

Roedd llawer o wyrthiau yn digwydd, ac roedd hyn yn dangos fod Duw yno gyda nhw.



8

Daeth mwy a mwy o bobl i gredu yn Iesu. Roedd hyn yn gwylltio'r Archoffeiriad. Dyma fe'n rhoi'r apostolion yn y carchar!



9



Ond yn ystod y nos daeth angel yr ARGLWYDD atyn nhw ac agor drysau'r carchar. Dyma fe'n dweud, "Ewch i'r deml, sefyll yno a dweud wrth bobl am y bywyd newydd yma." Dyma'r apostolion yn mynd i ddysgu'r bobl am Iesu. Yn y bore, aeth dynion yr Archoffeiriad i'r carchar – doedd neb yno.

10

Pan ddaethon nhw o hyd iddyn nhw, dechreuodd yr Archoffeiriad ddweud y drefn wrth yr apostolion. "Cawsoch chi orchymyn clir i beidio sôn am y dyn yna."



11

"Mae'n rhaid i ni ufuddhau i Dduw, dim i ddynion," atebodd Pedr a'r apostolion. Roedd yr Archoffeiriad yn gynddeiriog, roedd e am ladd yr apostolion. Ond yn lle hynny, dyma fe'n rhoi gorchymyn iddyn nhw gael eu curo, a'u gollwng yn rhydd. Er eu bod nhw mewn poen, fe wnaeth yr apostolion ufuddhau i Dduw, a dal ati i ddysgu am Iesu.

12

Un diwrnod cafodd dyn o'r enw Steffan ei arestio. Roedd Steffan yn caru'r Arglwydd Iesu. Roedd yr Ysbryd Glân yn ei ddefnyddio i ddweud wrth bobl am Iesu. Dyma rai yn dweud celwydd amdano, a cyhuddo Steffan o ddweud pethau drwg am Dduw. Ar ôl achos llys ffug, cafodd Steffan ei labyddio i farwolaeth.



13

Cyn iddo farw, fe wnaeth Steffan, yn llawn o'r Ysbryd Glân, edrych i fyny a gwelodd ogoniant Duw, a Iesu yn sefyll ar ei ochr dde.



14

Dyma'r dyrfa yn taflu cerrig at Steffan wrth iddo fe weddïo a dweud, "Arglwydd Iesu, derbyn fy ysbryd i." Yna, fel Iesu ar y groes, fe wnaeth y dyn dewr yma farw gan ofyn i Dduw faddau i'r bobl oedd yn ei ladd.



15

Dyna ddechrau cyfnod newydd o erlid gyda marwolaeth Steffan. Dechreuodd dyn ifanc o'r enw Saul, un oedd wedi helpu wrth i Steffan gael ei ladd, arestio unrhyw Gristion roedd e'n gwybod amdanyn nhw.

16

Dyma lawer ohonyn nhw'n dianc o'u cartrefi a gwasgaru drwy Jwdea a Samaria. Dim ond yr apostolion wnaeth aros yn Jerwsalem.

17

Er bod gelynion y credinwyr yma am eu lladd, roedden nhw'n dal i ddweud wrth bobl am y newyddion da am Iesu. Doedd dim yn mynd i rwystro dilynwyr Iesu – achos roedd Ysbryd Glân Duw gyda nhw ac yn gwneud gwaith trwyddyn nhw.

18

Yr Eglwys yn wynebu anawsterau

Stori o Air Duw, y Beibl

sydd i'w gweld yn

Actau 5-7

"Pan ddatguddir dy air, bydd yn goleuo."
Salm 119:130

Mae Duw yn gwybod bod ni wedi gwneud pethau drwg, beth mae e'n galw'n bechod. Y gosb am bechod ydy marwolaeth.

Mae Duw yn ein caru ni gymaint, fe wnaeth e anfon ei Fab, Iesu, i farw ar Groes. Fe wnaeth e gymryd ein cosb ni. **Daeth Iesu yn fyw eto** ac aeth yn ôl i'r Nefoedd! Nawr gall Duw faddau ein pechodau.

Os wyt ti am droi oddi wrth dy bechodau, beth am ddweud hyn wrth Dduw: Annwyl Dduw, rwy'n credu bod Iesu wedi marw drosof fi a'i fod yn fyw eto. Os gweli'n dda tyrd i mewn i'm mywyd a maddau fy mhechodau, er mwyn i mi gael bywyd newydd nawr, ac yna cael bod gyda Thi am byth. Helpa fi i fyw fel plentyn i ti. Amen. Ioan 3:16

Cofia ddarllen y Beibl a siarad bob dydd gyda Duw!